OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 1792 (Cy.188)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2006

Wedi'u gwneud - -	*4 Gorffennaf 2006*
Yn dod i rym - -	*1 Awst 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 77, 83, 83A ac 126(4) a pharagraff 1 o Atodlen 12 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**1**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2006 a deuant i rym ar 1 Awst 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) 2001(**2**).

(**1**) 1977 p.49; *gweler* adran 128(1) fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal yn y Gymuned 1990 (p.19) ("Deddf 1990"), adran 26(2)(g) ac (i), am y diffiniadau o "prescribed" a "regulations".
Diwygiwyd adran 83 gan Ddeddf Awdurdodau Iechyd 1995 (p.17) ("Deddf 1995"), adran 2 ac Atodlen 1, paragraff 39, gan O.S. 2000/90, erthygl 3(1) ac Atodlen (1), paragraff 13(1) a (4) a chan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (p.43) ("Deddf 2003"), adran 196 ac Atodlen 14, Rhan 4.
Mewnosodwyd adran 83A gan Ddeddf Cymorth Gwladol 1988 (p.7) ("Deddf 1988"), adran 14(1) ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf 1990, adran 66(1) ac Atodlen 9, paragraff 18(5)(a) a (b); gan Ddeddf 1995, adran 2(1) ac Atodlen 1, paragraff 40; gan Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (p.17) ("Deddf 2002"), adran 2(5) ac Atodlen 2 paragraffau 1 a 32; gan Ddeddf 2003, adran 184 ac Atodlen 11, paragraffau 7 a 31 ac hefyd gan adran 196 ac Atodlen 14.
Diwygiwyd adran 126(4) gan Ddeddf 1990, adran 66(2) a Deddf Iechyd 1999 (p.8) ("Deddf 1999"), adran 65(1) ac Atodlen 4, paragraffau 37(1) a (6); gan Ddeddf 2002, adran 6(3)(c) a chan Ddeddf 2003, adran 184 ac atodlen 11, paragraffau 7 a 38.
Diwygiwyd paragraff 1 o Atodlen 12 gan Ddeddf y Gwasanaethau Iechyd 1980 (p.53), adran 25(2) ac Atodlen 5, paragraff 1; gan Ddeddf 1998, adran 16 ac Atodlen 5; gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Sylfaenol) 1997 (p.46), adran 41(10) ac Atodlen 2, paragraff 31 a chan Ddeddf 2003, adran 184 ac Atodlen 11, paragraffau 7 a 44.
Trosgwlyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 77, 83, 83A ac 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 a pharagraff 1 o Atodlen 12 iddi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2 ac Atodlen 1, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 1999, adran 66(4), Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001(p.15), adran 68(1), Deddf 2002, adran 40(1) a Deddf 2003, adran 197(1).

(**2**) O.S.2001/1358 (Cy.86). Mae O.S.2001/2359 (Cy.196), O.S.2004/1018 (Cy.115) ac O.S. 2004/1605 (Cy.164), O.S.2005/427 (Cy.44) ac O.S. 2005/1915 (Cy.158) yn offerynnau diwygio perthnasol.

Diwygio rheoliad 2 o'r prif Reoliadau

2. Yn rheoliad 2 o'r prif Reoliadau (dehongli)—

(a) yn y man priodol yn nhrefn yr wyddor mewnosoder—

"mae i "cerdyn hawl" ("*entitlement card*") yr ystyr a roddir iddo gan reoliad 9A(1);";

(b) yn y man priodol yn nhrefn yr wyddor mewnosoder—

"ystyr "Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol" ("*Primary Care Trust*") yw Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol a sefydlwyd o dan adran 16A o'r Ddeddf(**3**);";

(c) yn y man priodol yn nhrefn yr wyddor mewnosoder—

"mae i "claf cymwys" ("*qualifying patient*") yr ystyr a roddir iddo gan reoliad 9A(3);";

Diwygio rheoliad 3 o'r Prif Reoliadau

3.—(1) Diwygir rheoliad 3 o'r prif Reoliadau fel a ganlyn.

(2) Yn lle is-baragraff (1)(b) rhodder yr is-baragraff a ganlyn—

"(b) pan fo'r claf yn cyflwyno presgripsiwn cyfatebol—

(i) mewn achosion pan fo'r claf yn glaf cymwys sydd hefyd yn cyflwyno cerdyn hawl dilys—

(aa) am eitem hosan elastig ffi o £3.00, hynny yw ffi o £6.00 y pâr,

(bb) am gyflenwi pob cyfarpar arall ac am bob swm o gyffur, ffi o £3.00;

(ii) ym mhob achos arall—

(aa) am eitem hosan elastig y ffi yw'r hyn a bennir yn rheoliad 3(1)(a) o Reoliadau Ffioedd 2000,

(bb) am gyflenwi pob cyfarpar arall ac am bob swm o gyffur, y ffi a bennir yn rheoliad 3(1)(b) o Reoliadau Ffioedd 2000.".

(3) Yn lle is-baragraff (3)(b) rhodder yr is-baragraff a ganlyn—

"(b) am bob swp-ddyroddiad cyfatebol—

(i) mewn achosion pan fo'r claf yn glaf cymwys sydd hefyd yn cyflwyno cerdyn hawl dilys—

(aa) am eitem hosan elastig ffi o £3.00, hynny yw ffi o £6.00 y pâr,

(bb) am gyflenwi pob cyfarpar arall ac am bob swm o gyffur, ffi o £3.00;

(ii) ym mhob achos arall—

(aa) am eitem hosan elastig y ffi yw'r hyn a bennir yn rheoliad 3(1A)(b)(i) o Reoliadau Ffioedd 2000,

(bb) am gyflenwi pob cyfarpar arall ac am bob swm o gyffur, y ffi a bennir yn rheoliad 3(1A)(b)(ii) o Reoliadau Ffioedd 2000.".

(4) Yn lle is-baragraff (5)(b) rhodder yr is-baragraff a ganlyn—

"(b) os cyflenwir cyffur a orchmynnir ar ffurflen bresgripsiwn gyfatebol sengl fesul cyfrannau—

(**3**) Mewnosodwyd adran 16A yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 gan Ddeddf Iechyd 1999 (p.8), adran 2(1).